

SL(5)474 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau mewn perthynas â Chymru i nifer o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu'n rhannol Reoliad yr UE 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, a Rheoliadau Gweithredu a Rheoliadau Dirprwyedig a wneir o dan Reoliad yr UE 2017/625.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodir dim pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Nodwn y torri'r rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, [mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Tachwedd 2019](#).

Yn benodol, nodwn yr hyn a ddywed y llythyr am y Rheoliadau hyn, eu bod "yn hanfodol i gynnal rheolaethau a gwaith gorfodi swyddogol" ac, os na fydd y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2019, "ni fydd gan Gymru fframwaith cyfreithiol i orfodi rheolaethau swyddogol, a allai beryglu iechyd y cyhoedd (yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid), tanseilio hyder busnesau a defnyddwyr a pheryglu mynediad i farchnad yr UE. Os na fydd yr offerynnau statudol yn dod i rym ar 14 Rhagfyr, ni fydd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau gorfodi eraill yng Nghymru'r pwerau deddfwriaethol i orfodi cyfreithiau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid."

Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nodwn fod y broses o ddrafftio'r Rheoliadau hyn wedi'i gohirio o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch statws y Deyrnas Unedig fel aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2019 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawid y DU â'r UE.

